

4 Mai 2020

Annwyl rieni a gofalwyr,

Rydym wedi cymryd y cam anarferol o ysgrifennu atoch yn uniongyrchol er mwyn diolch am y gwaith gwych rydych chi'n ei wneud i gefnogi dysgu o bell gyda'ch plant. Mae wedi bod yn frainf gweld enghreifftiau rhyfeddol o gadarnhaol o'r ffordd y mae pobl ifanc ein rhanbarth wedi mynd i'r afael â'r sefyllfa bresennol, er gwaethaf ei chymhlethdodau. Cofiwch na ellir disgwyl i ddysgu o bell adlewyrchu'r profiad ysgol - byddai ceisio'n niweidiol i chi'ch hun.

Rydym am achub ar y cyfle hwn i dawelu'ch meddwl ein bod yn gweithio'n galed mewn cydweithrediad ag ysgolion a sefydliadau ledled Cymru, i gefnogi'ch hun fel rhieni. Mae maes cynyddol o ddeunyddiau ategol i rieni a gofalwyr yn cael ei gynnal ar wefan [Hwb](#). Er mwyn ei gwneud hi'n haws i rieni ddod o hyd i'r holl gyngor ac arweiniad rydym wedi creu ardal Rhieni ar wefan CCD. Gellir dod o hyd i'r holl wybodaeth trwy'r ddolen [hon](#).

Fe welwch gyngor ac arweiniad ar sut i gael mynediad at ddysgu a'i gefnogi. Yn ogystal, fe welwch ganllawiau ynghylch diogelwch ar-lein ac ystod o ddeunyddiau dysgu ychwanegol sydd ar gael am ddim. Mae cyfathrebiadau i rieni a gofalwyr eisoes wedi cael eu rhyddhau gan Lywodraeth Cymru a byddant yn cael eu hategu dros yr wythnosau nesaf. Gall rhieni hefyd lawrlwytho ystod o feddalwedd am ddim trwy'r plattform [Hwb](#), dilynwch y dolenni yn yr ardal Rhieni.

Fel y gwyddoch, mae eich ysgol ac yn wir ysgolion ledled y rhanbarth yn gweithio'n ddiflino i sicrhau bod gan eich plant fynediad at ddeunyddiau dysgu o bell. Mae ein gweithwyr addysg proffesiynol, fel bob amser, yn ceisio sicrhau bod lles pob disgybl yn hollbwysig yn yr ymateb i Covid 19. Rydym hefyd yn gwybod bod ysgolion yn cadw cysylltiad â phlant a phobl ifanc ledled y rhanbarth, bydd hyn yn digwydd mewn amryw o ffyrdd. **Cofiwch ei bod yn debygol y bydd y rhif ffôn yn cael ei ddal yn ôl, felly gwnewch yn siŵr eich bod chi'n gwybod y trefniadau ar gyfer eich ysgol.**

Unwaith eto, hoffem achub ar y cyfle hwn i ddiolch i chi am eich cefnogaeth barhaus. Arhoswch yn ddiogel ac yn iach ar yr adeg anodd hon.

Cofion cynnes




Lindsay Harvey

*Cyfarwyddwr Corfforaethol
Addysg a Chymorth Teuluol
Cyngor Bwrdeistref Sirol
Pen-y-bont ar Ogwr*




Nick Batchelor

*Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu
Gydol Oes
Cyngor Caerdydd*



Sue Walker

*Prif Swyddog (Dysgu) /
Prif Swyddog Addysg
Cyngor Bwrdeistref Sirol
Merthyr Tudful*



Gaynor Davies

*Cyfarwyddwr Addysg a
Gwasanaethau Cynhwysiant
Cyngor Bwrdeistref Sirol
Rhondda Cynon Taf*



Paula Ham

*Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau
Cyngor Bro Morgannwg*



Clara Seery

*Rheolwr Gyfarwyddwr
Consortiwm Canolbarth y De*